Dulais Opportunity for Voluntary Enterprise - DOVE

Cwmni cyfyngedig trwy warant ac elusen gofrestredig yn y sector gwirfoddol yng nghymuned Banwen yng Nghwm Dulais uchaf yw VIEW (DOVE) Ltd. Sefydlwyd y Gweithdy yn ystod Streic y Glowyr 1984 – 85 gan grŵp o fenywod o Grŵp Cefnogi'r Glowyr yng Nghwm Dulais. Swyddogaeth Gweithdy DOVE yw canfod a chynorthwyo oedolion yn y gymuned sy'n chwilio am addysg, hyfforddiant a chyngor ar ddechrau busnes.

Sefydlodd y Gweithdy Fenter Gymdeithasol yn 1989 i ddatblygu'r ddarpariaeth gofal plant ymhellach a chynnig gwasanaethau swyddfa ac, yn fwy diweddar, caffi cymunedol a gwasanaeth arlwyo. Mae DOVE yn rhan o bartneriaeth Cymunedau yn Gyntaf Cwmdulais Uchaf.

Mae'r Gweithdy'n cynnig cyfleoedd dysgu rhan-amser, hyblyg, ffurfiol ac anffurfiol ar bob lefel astudio hyd at lefel gradd. Mae partneriaethau hirsefydlog yn bodoli rhwng DOVE a phrifysgolion a cholegau lleol.

Yn y blynyddoedd diwethaf, mae tîm DOVE wedi cymryd mwy a mwy o ran mewn materion yn ymwneud â'r amgylchedd a datblygu cynaliadwy.

Gardd Gymunedol Sarn Helen

Yn 2007 dyfarnodd y Gronfa Loteri Fawr ychydig o dan £250,000 i Weithdy DOVE i adfywio rhandiroedd segur oedd yn eiddo i Gyngor Cymuned Onllwyn a'u troi'n ardd fasnachol gymunedol.

Mae tri diben i'r ardd: tyfu cynnyrch ffres fforddiadwy i'r gymuned; hybu ymwybyddiaeth amgylcheddol trwy ddefnyddio dulliau tyfu gwyrdd a darparu safle i ailgylchu gwastraff o'r ardd a gwastraff bwyd, gan ei droi'n gompost i'w ddefnyddio yn yr ardd; ac fel cyfleuster i gynnig cyfleoedd dysgu anffurfiol i bobl o bob oed gymryd rhan ynddynt.

Erbyn hyn mae'r prosiect yn nhrydedd flwyddyn, sef blwyddyn olaf, ei arian gan y Gronfa Loteri Fawr, a hyd yn hyn mae wedi cyflawni'r canlynol:

- Mae'r gydweithfa fwyd yn darparu salad, llysiau a ffrwythau i'r gymuned.
- Mae cynnyrch, blodau a chyflenwadau'r ardd yn cael eu gwerthu o'r ardd.
- Mae'r ardd yn cynnal dwy swydd amser llawn.
- 158 o wirfoddolwyr yn cymryd rhan, gan gynnwys myfyrwyr garddwriaeth
- Partneriaeth gydag ysgolion lleol yn cynnig cyngor ac ymweliadau
- Trefniant gydag ysgol gyfun leol i ddarparu gweithgareddau fel rhan o gwricwlwm hyblyg.

Cafodd y prosiect arian a chymorth oddi wrth Gyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot, Amgylchedd Cymru ac Ymddiriedolaeth Adfywio'r Meysydd Glo i adeiladu'r ardd. Fel y gwelwch o'r llun, roedd y gwaith adeiladu'n golygu llawer o waith corfforol caled. Yr her i'r dyfodol yw creu adnodd a fydd yn gynaliadwy'n ariannol ac yn amgylcheddol ac a fydd yn eiddo i'r gymuned.

I gael mwy o wybodaeth cysylltwch â:

Lesley Smith
Cyd Gydlynydd
Gweithdy DOVE
01639 700024